

Ken Skates AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a
Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

21 Mai 2018

Annwyl Ken,


Ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

Yn ei gyfarfod ar 17 Mai, trafododd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ei adroddiad drafft ar yr ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel.

Fel rhan o'n trafodaethau ehangach ynghylch yr adroddiad, cytunwyd i ofyn chi am eglurhad pellach o rolau a chylch gorchwyl y Bwrdd Gwaith Teg a'r Comisiwn Gwaith Teg. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn deall y berthynas rhwng y ddau grŵp, a sut y byddant yn llywio eu gwaith ei gilydd.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb gan roi'r wybodaeth hon erbyn 19 Mehefin 2018.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

